

Cyfarfod Pwyllgor Cyswilt Ystadegol Cymru – 6 Chwefror 2020

Credyd Cynhwysol

Cyflwyniad

Un taliad misol i bobl sy'n gweithio neu bobl ddi-waith yw Credyd Cynhwysol. Mae'n disodli chwe budd-dal a chredyd treth sy'n dibynnu ar brawf modd: Lwfans Ceisio Gwaith sy'n seiliedig ar incwm, Budd-dal Tai, Credyd Treth Gwaith, Credyd Treth Plant, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n seiliedig ar incwm a Chymorthdal Incwm.

Mae cymorth ar gyfer costau tai, plant a chostau gofal plant wedi'u hintegreiddio yn y Credyd Cynhwysol ac mae hefyd yn darparu ychwanegiadau ar gyfer pobl anabl a gofalwyr.

Mae hawlwr yn cael un taliad misol i'r aelwyd a gaiff ei dalu i mewn i gyfrif banc. Mewn rhai achosion, gall taliad gael ei rannu rhwng hawlwr mewn aelwyd, a gellir gwneud taliad amlach (h.y. bob pythefnos). Bydd cymorth gyda chostau tai fel arfer yn mynd at yr hawlwr yn uniongyrchol, ond mewn rhai achosion, gellir ei dalu yn uniongyrchol i'r landlord yn lle hynny. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn gwneud cais ar-lein ac yn rheoli eu hawliad drwy gyfrif ar-lein.

Cyflwyno Credyd Cynhwysol

Cyn 5 Ebrill 2017, roedd Credyd Cynhwysol ar gael i geiswyr gwaith sengl newydd ledled Cymru gyfan ac i gyplau a theuluoedd yn Shotton, Sir y Fflint¹. Dechreuodd y broses o drawsnewid i'r 'gwasanaeth Credyd Cynhwysol llawn' (h.y. hawliadau newydd gan bob math o hawlwr) yng Nghymru fesul cam rhwng mis Ebrill 2017 a mis Rhagfyr 2018.

Dechreuodd y broses o drawsnewid ar 5 Ebrill 2017 yng Nghyngor Sir y Fflint. Yn raddol, dilynodd awdurdodau lleol eraill, ac, erbyn diwedd mis Rhagfyr 2018, roedd pob un ohonynt yn darparu'r gwasanaeth llawn. Unwaith caiff y gwasanaeth llawn ei gyflwyno, derbynnir hawliadau gan y rhai hynny sy'n cael budd-daliadau etifeddol y mae newid wedi bod yn eu hamgylchiadau.

Ym mis Ionawr 2019, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ar y pryd, yn hytrach na dechrau ar broses mudo a rheolir (h.y. yr holl hawlwr budd-daliadau etifeddol sy'n weddill y mae eu hamgylchiadau wedi aros yr un fath) o ddifrif ym mis Gorffennaf 2019, y cynhelir cynllun peilot 12 mis a fydd yn gyfyngedig i 10,000 o hawlwr yn unig. Yna, bydd Senedd y DU yn pleidleisio ar reoliadau pellach cyn y caiff y broses ei hymestyn i fwy o hawlwr. Yna, mae'r Adran


¹ Dechreuodd y gwaith o gyflwyno Credyd Cynhwysol yng Nghymru ar 7 Ebrill 2014, gyda hawliadau newydd gan grŵp cyfyngedig o geiswyr gwaith sengl heb blant yn Shotton. O fis Gorffennaf 2014 ymlaen, dechreuodd Shotton dderbyn hawliadau newydd gan gyplau heb blant. Roedd Credyd Cynhwysol ar gael i deuluoedd yn Shotton o fis Ionawr 2015. Rhwng mis Chwefror 2015 a mis Mawrth 2016, cafodd Credyd Cynhwysol ei ymestyn i weddill yr ardaloedd yng Nghymru – ar gyfer hawliadau newydd gan bobl sengl yn unig, a fyddai fel arall wedi bod yn gymwys i gael Lwfans Ceisio Gwaith, gan gynnwys y rheini a oedd yn cael Budd-dal Tai a Chredyd Treth Gwaith.

Gwaith a Phensiynau yn bwriadu ymfudo'n arafach i ddechrau, cyn cynyddu gweithgarwch i gwblhau'r broses fudo erbyn mis Rhagfyr 2023.

Fodd bynnag, fel y dangosir yn Ffigur 1 isod, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn tybio y bydd mudo a reolir yn dod i ben chwe mis yn hwyrach (h.y. ym mis Mehefin 2024) nag y mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ei fwriadu, gan ymestyn cam 12 mis olaf cynllun yr Adran Gwaith a Phensiynau pan ymdrinnir â nifer mawr o hawliadau, dros gyfnod mwy cyflawnadwy o 18 mis.

Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn ystyried mai'r prif risgiau i amserlen y broses mudo a reolir yw clirio'r rhwystr Seneddol ar ôl y cyfnod peilot a'r cynnydd mawr yn y niferoedd rhwng 2021-22 a 2022-23, lle mae profiad blaenorol yn dangos hyn, pan gaiff cynnydd sydyn o ran niferoedd ei gynllunio, caiff ei ddiwygio'n aml i fod yn broses fwy graddol pan ddaw'r amser i'w cyflawni.

Ffigur 1: Diwygiadau olynol i dybiaethau ynghylch y broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol (Saesneg yn unig)



Ffynhonnell: [Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol](#)

Ystadegau yr Adran Gwaith a Phensiynau

Nifer y bobl sy'n cael Credyd Cynhwysol

Nifer y bobl a oedd yn cael Credyd Cynhwysol yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2019 oedd 141,470 (Prydain Fawr: 2.7 miliwn o bobl). Mae hyn yn gynydd o 4% o fis Tachwedd 2019. Mae nifer y bobl sy'n cael Credyd Cynhwysol yng Nghymru wedi dyblu bron (cynydd o 90%) ers mis Rhagfyr 2018, pan ddarparwyd y gwasanaeth Credyd Cynhwysol llawn ym mhob swyddfa Canolfan Byd Gwaith.

Cyflogaeth

Mae Credyd Cynhwysol ar gael i bobl ddi-waith a'r rhai hynny sy'n gweithio ac ar incwm isel.

Ers mis Tachwedd 2019, nid yw'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cyhoeddi ffigur dros dro ar gyfer nifer y bobl sy'n cael Credyd Cynhwysol sydd mewn cyflogaeth yn ystod y mis olaf yn y gyfres. Bellach, dim ond ffigur ag oediad o 2 fis y mae'n ei ddarparu, gan ei fod yn cael ei ystyried yn ffigur mwy ystyrlon a chadarn.

O blith y 136,180 o bobl yn cael Credyd Cynhwysol yng Nghymru ym mis Tachwedd 2019, roedd 46,890 (34%) mewn cyflogaeth, o gymharu â 38% (25,380 allan o 66,610) ym mis Tachwedd 2018.

Trefn amodoldeb chwilio am waith

Mae rhai pethau sy'n gysylltiedig â gwaith y mae'n rhaid i oedolyn cymwys eu gwneud er mwyn cael yr hawl iawn i Gredyd Cynhwysol. Cyfeirir at hyn fel 'amodoldeb'². Mae chwe threfn amodoldeb sy'n seiliedig ar alluedd ac amgylchiadau.

Trefn amodoldeb	Disgrifiad
Chwilio am waith	Ddim yn gweithio, neu sydd ag enillion isel iawn. Mae'n ofynnol i'r hawliwr gymryd camau gweithredu er mwyn sicrhau gwaith - neu i gael mwy o waith / gwaith sy'n talu mwy. Mae'r Hyfforddwr Gwaith yn ei gynorthwyo i gynllunio ar gyfer chwilio am waith a'i weithgarwch paratoi.
Gweithio – gyda gofynion	Mewn gwaith ond gallai ennill mwy, neu ddim yn gweithio ond sydd â phartner ag enillion isel.
Dim gofynion sy'n gysylltiedig â gwaith	Does dim disgwyl iddo weithio ar hyn o bryd. Mae iechyd neu gyfrifoldebau gofalu yn atal yr hawliwr rhag gweithio neu baratoi at waith.
Gweithio – dim gofynion	Enillion unigolion neu aelwydydd uwchlaw'r lefel y mae amodoldeb yn berthnasol. Mae gofyn hysbysu DWP am newid i

² Mae'r dadansoddiadau amodoldeb yn mesur pa drefn y mae unigolyn yn rhan ohoni ar y dyddiad cyfrif. Efallai na fydd hyn yn cynrychioli'r cyfnod asesu cyfan ar gyfer yr unigolyn hwnnw. Nid yw ffigurau trefn amodoldeb yr un fath â'r mesurau cyflogaeth, sy'n dangos a yw unigolyn wedi cael enillion yn ystod ei gyfnod asesu. Dylid bod yn wyliadwrs wrth ddefnyddio'r ddau fesur gyda'i gilydd.

	amgylchiadau, yn enwedig os ceir risg o ostyngiad mewn enillion neu o golli swydd.
Cynllunio ar gyfer gwaith	Disgwylir iddo weithio yn y dyfodol / Rhiant unigol / prif ofalwr plentyn 1 oed. Mae'n ofynnol i'w hawliwr fynychu cyfweiliadau rheolaidd er mwyn cynllunio ar gyfer dychwelyd i'r gwaith.
Paratoi at waith	Disgwylir iddo ddechrau paratoi ar gyfer y dyfodol hyd yn oed gyda gallu cyfyngedig i weithio ar hyn o bryd, neu â phlentyn 2 oed. Disgwylir i'r hawliwr gymryd camau rhesymol i baratoi ar gyfer gwaith yn cynnwys Cyfweiliad sy'n Canolbwyntio ar Waith.

Ffynhonnell: [Yr Adran Gwaith a Phensiynau](#)

O blith y 141,470 o bobl a oedd yn cael Credyd Cynhwysol yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2019, roedd 36% (51,210) yn y drefn amodoldeb Chwilio am Waith, o gymharu â 43% (31,770 allan o gyfanswm o 74,310) ym mis Rhagfyr 2018, a 75% (350 allan o gyfanswm o 480) ym mis Ebrill 2015 (y ffigurau cyntaf sydd ar gael ar gyfer y dadansoddiad hwn).

Mae tuedd tuag i lawr wedi bod yng nghyfran y bobl yn y drefn amodoldeb Chwilio am Waith ers mis Ebrill 2015. Mae hyn o ganlyniad i gyfyngu'r broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol yn gynnar i geiswyr gwaith, y disgwylir iddynt fod yn y grŵp amodoldeb hwn. Yn ôl y disgwyl, mae cyfran y bobl ym mhob un o'r grwpiau amodoldeb eraill wedi cynyddu yn ystod y cyfnod hwn, yn benodol y grŵp amodoldeb Dim Gofynion sy'n Gysylltiedig â Gwaith, a oedd yn 28% ym mis Rhagfyr 2019, o gymharu ag 19% ym mis Rhagfyr 2018 a 5% ym mis Ebrill 2015.

Rhyw

Ym mis Rhagfyr 2019, roedd 79,060 (56%) o ferched yn cael Credyd Cynhwysol yng Nghymru, o gymharu â 52% (38,560 allan o 74,310) ym mis Rhagfyr 2018. Wrth i'r broses o'i gyflwyno fynd rhagddi ac wrth i'r meini prawf cymhwysedd gael eu hehangu, mae hawlwr sy'n ferched wedi cyfrif am gyfran gynyddol o'r llwyth achosion.

Ardal awdurdod lleol

Yn dilyn proses raddol o'i gyflwyno'n ddaearyddol, mae gwasanaeth Credyd Cynhwysol llawn wedi bod ar gael ym mhob swyddfa Canolfan Byd Gwaith yng

Nghymru ers mis Rhagfyr 2018. Gellir gweld yr amserlen gyflwyno ar gyfer pob swyddfa Canolfan Byd Gwaith [yma](#) (tabl 1.1 o'r tablau data).

Mae Tabl 1 isod yn dangos mai yng Nghaerdydd (13%), Abertawe (9%), Rhondda Cynon Taf (7%) a Chasnewydd (7%) yr oedd y cyfrannau mwyaf o gyfanswm nifer y bobl ar Gredyd Cynhwysol yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2019.

Tabl 1: Pobl sy'n cael Credyd Cynhwysol, yn ôl awdurdod lleol, Rhagfyr 2019

	Nifer y bobl	Cyfran o gyfanswm Cymru (%)
Ynys Môn	2,253	2
Gwynedd	3,648	3
Conwy	4,979	4
Sir Ddinbych	4,799	3
Sir y Fflint	7,614	5
Wrecsam	7,340	5
Powys	3,449	2
Ceredigion	1,821	1
Sir Benfro	4,752	3
Sir Gaerfyrddin	6,047	4
Abertawe	13,019	9
Castell-nedd Port Talbot		6
Pen-y-bont ar Ogwr	8,368	5
Bro Morgannwg	6,880	3
Caerdydd	4,574	13
Rhondda Cynon Taf	18,074	7
Merthyr Tudful	9,915	2
Caerffili	3,495	6
Blaenau Gwent	8,134	3
Torfaen	4,124	4
Sir Fynwy	6,215	2
Casnewydd	2,434	7
Cymru	9,528	
	141,469	

Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau [Stat-Xplore](#)

Nifer yr aelwydydd sy'n cael Credyd Cynhwysol

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd yn cyhoeddi ystadegau ar gyfer nifer yr aelwydydd sy'n cael Credyd Cynhwysol. Ym mis Awst 2019, roedd 106,170 o aelwydydd yng Nghymru yn cael Credyd Cynhwysol, sef 5% o'r 2.1 miliwn o aelwydydd sy'n cael Gredyd Cynhwysol ym Mhrydain Fawr. O blith yr aelwydydd hyn yng Nghymru, roedd 98,080 (92%) yn cael taliad Credyd Cynhwysol. Mae nifer o resymau pam nad yw aelwyd yn cael taliad o bosibl, er enghraifft, pan fo rhywun yn dechrau gweithio, efallai y bydd lefel ei enillion yn golygu na fydd yn cael taliad Credyd Cynhwysol mwyach. Gan fod Credyd Cynhwysol yn ymateb i amgylchiadau

newidiol, ac yn darparu cymorth i bobl sy'n gweithio a phobl ddi-waith, gellir ailddechrau taliadau Credyd Cynhwysol hyd at chwe mis ar ôl taliad olaf aelwyd.

Erbyn iddo gael ei gyflwyno'n llawn, amcangyfrifwn y bydd tua 400,000 o aelwydydd yng Nghymru yn cael Credyd Cynhwysol³. Ym mis Awst 2019, roedd ychydig dros chwarter (27%) o'r aelwydydd hyn yn cael Credyd Cynhwysol. Mae disgwyl i nifer y teuluoedd sy'n cael Credyd Cynhwysol ym Mhrydain Fawr godi i 6 miliwn⁴ erbyn iddo gael ei gyflwyno'n llawn yn 2023-24.

O blith y 98,080 o aelwydydd yng Nghymru a oedd yn cael taliad Credyd Cynhwysol ym mis Awst 2019:

- Rhoddwyd mwy na hanner y dyfarniadau Credyd Cynhwysol (53%, 52,320) i bobl sengl heb blant, a dim ond 3,450 o ddyfarniadau (4%) a dalwyd i gyplau heb blant.
- Cyfanswm cymedrig y Credyd Cynhwysol a dalwyd i aelwydydd oedd £670 y mis.
- Aelwydydd un person heb ddibynyddion sy'n blant gafodd y swm lleiaf o Gredyd Cynhwysol ar gyfartaledd (£460 y mis), a chyplau â dibynyddion sy'n blant gafodd y mwyaf ar gyfartaledd (£950 y mis).
- Roedd 60,470 o aelwydydd (62%) yn gymwys i gael cymorth tai – roedd 55% o'r rhain yn y sector rhentu cymdeithasol.
- Roedd gan bron i chwarter (23%, 14,030) o aelwydydd a oedd yn gymwys i gael cymorth ar gyfer costau tai Daliad a Reolir i Landlord⁵ ar waith.
- Dim ond saith aelwyd a gafodd Taliad Hollt⁶.
- Cafodd tua 2,990 o aelwydydd (3%) Daliad Mwy Rheolaidd⁷.
- Ym mis Gorffennaf 2019⁸, cafodd 95% o'r holl aelwydydd a dalwyd eu talu'n llawn ar amser, gyda 98% o'r aelwydydd yn cael o leiaf rywfaent ar amser.

³ Rhagamcan Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar ddata budd-daliadau oedran gweithio yr Adran Gwaith a Phensiynau a data credydau treth Cyllid a Thollau EM (CThEM). Mae'r rhagamcan hwn hefyd yn gyson â'r hyn a gynhyrchwyd gan [Cyngor ar Bopeth](#)

⁴ Ffynhonnell: [Sefydliad Astudiaethau Cyllid](#)

⁵ Fel arfer, caiff Credyd Cynhwysol, gan gynnwys cymorth ar gyfer costau tai, ei dalu yn uniongyrchol i'r aelwyd mewn taliad sengl. Lle nad yw hyn yn addas, gall landlordiaid a hawlwr wneud cais i gostau tai gael eu talu'n uniongyrchol i'r landlord drwy Taliad a Reolir i'r Landlord.

⁶ Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir rhannu taliad Credyd Cynhwysol rhwng dau aelod o'r aelwyd.

⁷ Pan nodir nad yw un taliad misol yn addas i aelwyd, mae'n bosibl y gellir rhannu ei Chredyd Cynhwysol yn ystod y mis fel ei fod yn cael ei dalu yn fwy mynych, megis dwywaith y mis neu, mewn amgylchiadau eithriadol, bedair gwaith y mis.

⁸ Er mwyn sicrhau bod digon o amser i gasglu gwybodaeth am yr holl daliadau, ni chaiff ffigurau eu cynnwys ar gyfer mis olaf y gyfres – dyna pam y cyfeirir at fis Gorffennaf 2019 yn hytrach na mis Awst 2019.

Cafodd 87% o'r aelwydydd a oedd yn newydd⁹ i Gredyd Cynhwysol eu talu'n llawn ar amser, gyda 93% ohonynt yn cael o leiaf rywfaint ar amser.

Ystadegau rhyngweithiol yr Adran Gwaith a Phensiynau ar Gredyd Cynhwysol

Edrychwch ar [fap rhyngweithiol sy'n dangos ystadegau ar aelwydydd sy'n cael Credyd Cynhwysol ar lefel awdurdod lleol](#).

Edrychwch ar [ystadegau ar hawlwr Credyd Cynhwysol ar lefel swyddfa Canolfan Byd Gwaith ar ffurf map rhyngweithiol](#).

Edrychwch ar [ddangosfwrdd rhyngweithiol o'r ystadegau diweddaraf ar Gredyd Cynhwysol aelwydydd yn ôl rhanbarth](#).

Gellir dod o hyd i ddadansoddiadau pellach o'r ystadegau hyn yn [Stat-Xplore](#) (adnodd ar-lein ar gyfer archwilio rhai o brif ystadegau'r Adran Gwaith a Phensiynau).

Rhagor o wybodaeth am Ystadegau'r Adran Gwaith a Phensiynau ar Gredyd Cynhwysol

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cyhoeddi [gwybodaeth gefndirol a nodyn ar fethodoleg](#), sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth am ystadegau'r Adran Gwaith a Phensiynau ar Gredyd Cynhwysol.

Caiff bwletin ystadegol ei gyhoeddi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau bob chwarter, yn unol â'r datganiad ystadegol misol, sy'n cynnwys data ar y canlynol:

- pobl
- aelwydydd
- hawliadau, a hawliadau Credyd Cynhwysol newydd

Cyhoeddir y bwletin nesaf ar 18 Chwefror 2020.

Mae data ar gyfer pobl sy'n cael Credyd Cynhwysol ar gael ar Stat-Xplore yn fisol (dyddiad y cyhoeddir yr ystadegau hyn nesaf: 18 Chwefror 2020).

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cyhoeddi [ystadegau](#) ar nifer y sancsiynau a roddir i bobl sy'n cael Credyd Cynhwysol, Lwfans Ceisio Gwaith, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Gymorthdal Incwm.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd wedi cyhoeddi [cyhoeddiadau ystadegol ad hoc](#) ar Gredyd Cynhwysol. Er enghraifft, [Rhywedd deiliaid cyfrifon banc sy'n cael Credyd Cynhwysol](#), [blaendaliadau Credyd Cynhwysol: mis Mai 2016 i fis Mehefin 2017](#), [ystadegau ar y defnydd o sianeli ar-lein Credyd Cynhwysol](#), [Credyd Cynhwysol: Ystadegau ar drefniadau talu amgen](#).

⁹ Mae prydlondeb taliadau a weir ar gyfer hawliadau newydd yn is nag a welir wrth edrych ar yr holl hawliadau. Mae nifer o brosesau dilysu untro y mae'n rhaid iddynt gael eu cwblhau gan yr hawliwr a gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar ddechrau'r hawliad newydd. Gall oedi wrth gwblhau'r prosesau hyn effeithio ar brydlondeb y taliadau.

Ymchwil berthnasol a gynhyrchwyd gan/ar ran Llywodraeth Cymru a all fod o ddiddordeb

[Dadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru](#) – lluniwyd gan Lywodraeth Cymru (cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019).

[Deall effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac ôl-ddyledion rent yng Nghymru: Adroddiad interim](#) – lluniwyd gan Policy in Practice ar ran Llywodraeth Cymru (cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020). Disgwylir i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru yn ystod gwanwyn 2020.

[Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol yng Nghymru](#) – lluniwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ar ran Llywodraeth Cymru (cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020).

Cynghorydd Economaidd Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus (Llywodraeth Cymru) Ionawr 2020